



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mehefin 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Papur Trafod: Symleiddio Trefn Ffioedd Gymhleth



Trosolwg

Mae'r papur trafod hwn yn esbonio pam bod trefn ffioedd bresennol Swyddfa Archwilio Cymru yn rhy gymhleth ac mae'n ceisio barn ar ffyrdd o'i symleiddio.

Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn rhannu ymatebion â Phwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel rhan o drafodaethau sy'n mynd rhagddynt ynghylch symleiddio'r drefn.

Sut i ymateb

Dylid ymateb erbyn 28 Gorffennaf 2017.

Gellir anfon ymatebion i'r cyfeiriad canlynol:

Papur Trafod ar y Drefn Ffioedd
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Neu ei anfon drwy e-bost i post@archwilio.cymru.

Os oes angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod neu drwy ffonio 029 2032 0500.

Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r papur trafod hwn yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn bennaf, ond hefyd Ddeddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn gallu esbonio i ni pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol.

Os cawn gais i ddatgelu gwybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob achos. Ni chaiff ymwadiad cyfrinachedd a anfonir yn awtomatig gan eich system TG ei ystyried yn rhwymol ar Swyddfa Archwilio Cymru ar ei ben ei hun.

Caiff data personol eu prosesu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Os caiff data o'r fath eu cynnwys mewn cais am wybodaeth gan unigolyn arall, bydd angen ystyried darpariaethau Deddfau 1998 a 2000 yn yr achosion penodol. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae'n debygol y bydd hyn yn golygu y caiff gwybodaeth am uwch swyddogion a ffigyrau cyhoeddus ei datgelu ond y caiff enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd eu cadw'n gyfrinachol.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2017

Cynnwys

Cyflwyniad gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru	6
Crynodeb gweithredol	7
Trefn ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru	8
Yr achos dros newid	11
Opsionau eraill a gafodd eu hystyried ac yna'u gwrthod	22
Atodiadau	24
Atodiad 1 -Darnau o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r drefn ffioedd ymhlith cyrff archwilio'r DU	24
Atodiad 2 - Rhestr o ddeddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt	30
Atodiad 3 - Opsionau eraill a gafodd eu hystyried ac yna'u gwrthod	32

Cyflwyniad gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae ein hymgyngoriadau ynghylch ffioedd blynyddol a'n tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi esbonio bod y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r drefn ffioedd archwilio yng Nghymru yn fwy cymhleth a beichus nag mewn rhannau eraill o'r DU.

Argymhellodd adroddiad etifeddol y Pwyllgor Cyllid diwethaf y dylid diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 er mwyn egluro'r gofynion ynglŷn â chodi ffioedd archwilio. Rydym yn awyddus i argymhell newid i drefn symlach i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyllid presennol. Yn benodol, byddai'n well gennym fframwaith statudol a allai annog mwy o effeithlonrwydd o ran sut rydym yn cynnal ein gwaith archwilio heb beryglu ein cyfrifoldeb i weithio yn unol â'n cyllideb gyffredinol a bennir gan y Cynulliad. Mae ymatebion i ymgynghoriadau ynghylch ffioedd wedi dweud wrthym bod cyrff a archwilir o blaid symleiddio.

Credwn y gallai'r newidiadau a gynigir gennym yn y papur trafod hwn wella ein heffeithlonrwydd gweithredu ymhellach a chyfrannu at reoli cost gwaith archwilio yn y dyfodol, heb i ni orfod poeni am gymhlethdodau'r drefn ffioedd bresennol.

Felly gobeithiwn y byddwch yn cymryd yr amser i ystyried yr achos dros newidiadau i'r drefn ffioedd a nodir gennym yn y papur trafod hwn ac ymateb drwy gynnig eich barn ar yr atebion a ffefrir gennym.

Gyda diolch.

Isobel Garner
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio
Cymru

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Crynodeb gweithredol

Daw cyllid Swyddfa Archwilio Cymru o ddwy brif ffynhonnell – o'r ffioedd a godir gennym am y gwaith archwilio a wnawn (tua 70% o'n cyllid) ac o Gronfa Gyfunol Cymru sy'n cyfrannu at feysydd penodol o'n gwariant (tua 30%).

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ffioedd archwilio yng Nghymru yn gymhleth ac mae'n wahanol iawn i'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer cyrff archwilio eraill y DU. Mae'n golygu bod y prosesau sy'n sail i'r ffordd rydym yn gweithredu'r drefn ffioedd yn gymhleth, yn llafurus ac yn gymhleth i lawer. Ni chredwn fod Llywodraeth Cymru wedi bwriadu creu'r lefel o gymhlethdod a welir yn ymarferol pan gyflwynodd y ddeddfwriaeth. Rydym wedi croesawu parodrwydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad i drafod ac ystyried posibilïadau i'w symleiddio yn fawr iawn. Mae'r papur trafod hwn yn esbonio'r drefn ffioedd a'r prif gymhlethdodau a welir wrth weithio'n unol â hi.

Rydym yn ystyried opsiynau ar gyfer newid, gan gynnwys yr opsiwn 'dim newid', ac rydym yn nodi manteision ac anfanteision ar gyfer pob un. Rydym yn cyflwyno'r atebion a ffeirir gennym, ar gyfer newidiadau deddfwriaethol:

- cymell effeithlonrwydd archwilio a rhoi mwy o sicrwydd ynglŷn â ffioedd a godir ar gyrf a archwilir. Credwn y bydd yr ateb hwn yn sicrhau dull gweithredu 'dim byd annisgwyl' i'r cyrff a archwilir gennym ac yn gwella costeffeithiolrwydd trefniadau cyllido Swyddfa Archwilio Cymru.
- rhoi terfyn ar gylchredeg arian ffioedd ymhlith llywodraeth ganolog a chyrf y GIG a hyrwyddo annibyniaeth archwilyr.
- rhoi disgresiwn llawn i Swyddfa Archwilio Cymru benderfynu ar drefniadau codi tâl am waith cytundeb¹ er mwyn helpu i reoli cost gyffredinol gwaith archwilio cyhoeddus a'n galluogi i sicrhau gwell gwerth am arian o ran defnyddio ein hadnoddau.

Yn ein barn ni, byddai sicrhau trefniadau cyllido symlach, cliriach a mwy effeithlon ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru er budd y cyhoedd, a byddem yn awgrymu cynnwys newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol mewn Bil mor fuan â phosibl. Edrychwn ymlaen at rannu'r ymatebion i'r papur trafod hwn â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad.

¹ Gwneir gwaith cytundeb ar gais corff yn unol â thelerau cytûn, gan gynnwys lle mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnig am waith ar sail gystadleuol. Mae'r gwaith hwn yn wahanol i'r gwaith archwilio y mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd ag ef yn statudol.

Trefn ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru

- 1 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn nodi'r trefniadau y caiff neu y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am waith archwilio penodol odanynt. Mae deddfwriaeth arall, megis Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, yn nodi lle mae'n rhaid pennu graddfeydd ffioedd a gyda phwy y mae'n rhaid ymgynghori wrth bennu'r graddfeydd hynny. Rydym yn dewis ymgynghori'n ehangach nag sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth am ein bod o'r farn bod hynny'n cynnig mwy o dryloywder ac yn rhoi cyfle i'n holl randdeiliaid wneud sylwadau ar ein cynlluniau codi ffioedd.
- 2 Ceir y darn perthnasol o Ddeddf 2013 yn [Atodiad 1](#), ynghyd â throsolwg o'r ddeddfwriaeth gyfatebol sy'n gymwys i gyrrff archwilio eraill y DU. Mae [Atodiad 2](#) yn rhoi rhestr o ddeddfiadau y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd odanynt neu y caiff godi ffioedd odanynt. Mae'n ddarlun cymhleth.
- 3 Mae ein [Hamcangyfrif](#) Blynyddol (cyllideb) yn nodi ein hincwm a'n gwariant disgwyledig ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Ochr yn ochr â'r Amcangyfrif, rydym yn cyhoeddi [Cynllun Ffioedd](#), sy'n nodi ein strwythur codi tâl am waith archwilio a graddfeydd ffioedd lle bo hynny'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. Creffir ar yr Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.
- 4 Ni allwn godi ffioedd am bob agwedd ar ein gwaith – er enghraifft, nid yw'r cyrff a archwilir yn talu am y rhaglen o archwiliadau o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Caiff gwaith o'r fath ei ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru, fel y'i nodir yn ein Hamcangyfrif, o dan awdurdod cynnig cyllidebol blynyddol y Cynulliad.
- 5 Pan fyddwn yn codi ffi, rydym yn pennu cyfraddau ffi yr awr ar lefel i adennill y costau yr eir iddynt yn unig, gan fod y ddeddfwriaeth yn ein hatal rhag codi mwy na hynny. Yna rydym yn pennu ein ffioedd archwilio amcangyfrifedig yn seiliedig ar amser staff amcangyfrifedig ar gyfer pob rôl archwilydd sydd ei hangen i gwblhau'r gwaith. Gwneir hyn ar gyfer pob corff a archwilir.
- 6 Ar gyfer 2017-18, rydym yn amcangyfrif incwm o £14.7 miliwn o godi ffioedd, fel y dengys [Arddangosyn 1](#).

Arddangosyn 1: dadansoddiad o'r incwm amcangyfrifedig o ffioedd 2017-18

Sector	Gwaith archwilio ariannol £'000	Gwaith archwilio perfformiad £'000	Ardystio grantiau £'000	Cyfanswm 2017-18 £'000
Cyrff llywodraeth leol	5,785	2,538	1,406	9,729
Cyrff llywodraeth ganolog	1,790	–	–	1,790
Cyrff y GIG	1,886	1,224	–	3,110
Incwm arall	37	28	–	65
Cyfanswm yr incwm o ffioedd	9,498	3,790	1,406	14,694

Cymhariaeth â chyrrff archwilio eraill y DU

7 Mae **Arddangosyn 2** yn cymharu gofynion deddfwriaethol ynglŷn â ffioedd yng Nghymru â'r rhai sydd ar waith i gyrff archwilio eraill y DU (rhoddir naratif yn **Atodiad 1**):

Gofynion ynglŷn â ffioedd	Swyddfa Archwilio Cymru	Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Audit Scotland	Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon
Pennu ffioedd i adennill cost gwaith ffi yn fras gan ystyried un flwyddyn ag un arall	Na	Nid yw'n ofynnol ond mae'n arfer sefydledig	le	Nid yw'n ofynnol ond mae'n arfer sefydledig
Ni chodir ffi am gyfrifon a baratoir gan gyrff llywodraeth ganolog (cyrrff a ariennir gan y Gronfa Gyfunol berthnasol)	Na	le	le	le
Rhaid paratoi cynllun ffioedd sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer codi ffioedd	le	le	Na	Na
Mae telerau ac amodau ar gyfer gwaith cytundeb yn fater i'r corff archwilio	Ydynt, ond gyda chyfyngiadau	Ydynt	Ydynt	Ydynt

8 Mae tair darpariaeth benodol yn amlwg o **Arddangosyn 2** a allai symleiddio'r drefn ffioedd yng Nghymru:

- y gallu i godi ffioedd gyda'r nod o adennill costau (ar waith ffi) 'gan ystyried un flwyddyn ag un arall';
- peidio â chodi ffi am gyfrifon a baratoir gan adrannau'r llywodraeth neu gyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol o'r Gronfa Gyfunol berthnasol; a
- mwy o hyblygrwydd fel y bydd telerau ac amodau gwaith cytundeb/ gwaith a gomisiynwyd yn fater i'r corff archwilio perthnasol.

Yr achos dros newid

- 9 Rydym yn gweld bod cyfle i symleiddio yng Nghymru drwy sicrhau bod agweddau ar y drefn ffioedd yn gyson â'r rhai sy'n llywodraethu mewn rhannau eraill o'r DU, yn unol â **pharagraff 8**. Yn benodol, rydym yn gweld manteision posibl:
- rhoi mwy o sicrwydd i gyrff a archwilir ynglŷn â'r ffi sydd i'w chodi a goresgyn y diffyg cymhelliant i wneud gwaith archwilio yn fwy effeithlon ar lawr gwlad;
 - rhoi terfyn ar gylchredeg arian ffioedd ymhlith gyrff llywodraeth ganolog a'r GIG; a
 - galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i wneud defnydd gwell o waith cytundeb fel rhan o'n strategaeth ariannol.

Yr achos dros newid: rhoi mwy o sicrwydd ynglŷn â'r ffioedd sydd i'w codi i gyrff a archwilir a rhoi cymhelliant i sicrhau bod gwaith archwilio yn fwy effeithlon ar lawr gwlad

- 10 Mae ein ffioedd yn seiliedig ar gyfradd yr awr am bob rôl archwilydd wedi'i lluosio â'r oriau amcangyfrifedig i'w treulio ar yr archwiliad. Amcangyfrif gorau yw'r cyfrifiad, a wneir pan gaiff yr archwiliad ei gynllunio, ond rydym yn defnyddio profiad blaenorol a'r hyn a wyddom am bob corff a archwilir i lywio'r cyfrifiad hwnnw. Fel y gellir deall, gall y cymysgedd gwirioneddol o staff a ddefnyddiwyd a'r amser a dreuliwyd fod yn wahanol.
- 11 Mae adran 23 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol 'mewn perthynas ag archwilio cyfrifon person...[ac]...mewn perthynas â...darparu gwasanaethau i gorff...[na] **chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi'n ymwneud â hi**'.
- 12 Nid yw'r termau penodol 'cost lawn' na 'swyddogaeth' wedi'u diffinio yn ein cyd-destun ac felly gall roi cyfle i her gyfreithiol. Er mwyn ein helpu i ddehongli'r ddeddfwriaeth, ceisiwyd cyngor cyfreithiol annibynnol gennym. Ar ôl cael y cyngor hwnnw, bu'n rhaid i ni ddod i'r casgliad bod y ddeddfwriaeth yn golygu bod y cyfyngiad 'ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn' yn gymwys i bob swyddogaeth benodol a gyflawnir gennym ym mhob corff penodol a archwilir gennym. (Mae archwilio cyfrifon yn un enghraifft o un swyddogaeth benodol, ac mae asesiadau gwella o 'Awdurdod gwella yng Nghymru'² - agwedd ar waith archwilio perfformiad - yn enghraifft arall.)

2 Awdurdodau gwella yng Nghymru yw cyngorau sir, cyngorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub. Hynny yw, mae'r term yn gymwys i is-set o gyrff llywodraeth leol.

- 13 Nid yw adran 23 yn caniatáu ystyried gwaith y gallwn ei wneud ar gyfer corff penodol yn gyffredinol. Felly, mae'r senario yn codi'n hawdd lle mae'n rhaid i ni ad-dalu costau am rai agweddau ar ein gwaith ac anfon anfonebau ychwanegol am rai eraill ar yr un pryd – a'r cyfan i'r un corff a archwilir.

Senario sy'n codi'n aml:

Yn Awdurdod A, rydym yn cynnal archwiliad o'i gyfrifon ariannol ac asesiad perfformiad ar gyfer ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rydym yn amcangyfrif y ffioedd fel a ganlyn:

Arddangosyn 3: ffioedd amcangyfrifedig ar gyfer Awdurdod A

Swyddogaeth archwilio	Ffi amcangyfrifedig
Archwilio cyfrifon ariannol	£100,000
Archwilio perfformiad	£50,000
Cyfanswm y ffi	£150,000

Ar ôl cwblhau'r gwaith, mae ein costau gwirioneddol wedi'u cyfrifo fel a ganlyn:

Arddangosyn 4: cost derfynol y gwaith archwilio, yn Awdurdod A

Swyddogaeth archwilio	Cost wirioneddol
Archwilio cyfrifon ariannol	£80,000
Archwilio perfformiad	£70,000
Cyfanswm y ffi	£150,000

- 14 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni ad-dalu unrhyw swm dros ben pan fo cost **wirioneddol swyddogaeth** yn llai na'r amcangyfrif. Mae hynny'n golygu y byddwn wedi gwneud gwaith gwerth £150,000 i'r corff a archwilir, ond y bydd yn rhaid i ni ad-dalu £20,000 gan fod ein cost am y gwaith archwilio ariannol yn llai na'r ffi amcangyfrifedig a godwyd.
- 15 Er mwyn sicrhau nad yw ein sefyllfa ariannol gyffredinol wedi'i pheryglu, hynny yw, er mwyn sicrhau ein bod yn mantoli cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru, mae'n rhaid i ni benderfynu a ddylem gynnal trafodaethau anodd o bosibl â'r corff a archwilir ynglŷn â bilio am y ffioedd ychwanegol, yn yr achos hwn am gynnydd o £20,000 yng nghost gwaith archwilio perfformiad.
- 16 Mewn rhai achosion, bydd y rheswm dros y cynnydd yn amlwg - diffyg paratoi ar gyfer archwiliad ar ran sefydliad neu gall ymateb i ymholiadau gynyddu cost yr archwiliad hwnnw'n sylweddol. Byddem yn codi hyn yn ystod y broses archwilio. Fodd bynnag, gwyddom na all y cyrff a archwilir gennym ddarparu'n hawdd ar gyfer cynnydd yn eu ffi archwilio wedi'i chyllidebu; ac yn sicr heb rybudd bod angen gwneud hynny.
- 17 Mewn achosion eraill, efallai mai Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol am gostau ychwanegol:
- efallai ein bod wedi cymryd mwy o amser i archwilio agwedd benodol na'r disgwyl.
 - efallai bod un o'r tîm wedi mynd yn sâl, a bu'n rhaid i ni benodi cydweithiwr arall yn ei le nad oedd yn gyfarwydd â'r archwiliad hwnnw, neu benodi cydweithiwr ar lefel uwch na'r hyn a fwriadwyd. Gallai'r ddau beth effeithio ar yr amser a gymerir a chost y gwaith, ac efallai y bydd angen ail-wneud ychydig o'r gwaith.
 - efallai bod y cymhlethdodau penodol a nodwyd yn ystod yr archwiliad wedi gofyn am fewnbwn gan staff ar lefel uwch na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

Neu:

- gyfuniad o'r uchod. Fel mewn sefyllfa fasnachol, mae'n ddigon rhesymol i'r corff a archwilir ddweud, 'eich problem chi yw hynny, nid ein problem ni' ac yn sicr ni fyddai'n disgwyl i ni godi ffi ychwanegol i adennill y costau hyn.

- 18 **Yr hyn y mae'r rheol 'ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn' yn ei greu yw gwrthanogaeth i fod yn fwy effeithlon wrth gynnal archwiliad – os cwblhawn archwiliad am lai na'r amcangyfrif, ceir risg y gall beryglu ein sefyllfa ariannol gyffredinol yn y flwyddyn honno. Os ydym yn mynd y tu hwnt i'r costau amcangyfrifedig, mae'n creu gwrthdaro rhyngom ni a'r corff a archwilir o bosibl os ydym yn ei hysbysu am ffi gynyddol.**
- 19 O safbwynt y cyrff a archwilir, maent yn wynebu risg o filiau ychwanegol annisgwyl. Mae hyn yn peri i'r cyrff hynny roi pwysau ar y tîm archwilio i gyfiawnhau'r holl waith ychwanegol a wnaed a thrwy hynny beryglu annibyniaeth yr archwilydd o bosibl. Yn amlach na pheidio, mae'n golygu bod trafodaethau rhwng y tîm archwilio a'r corff a archwilir yn canolbwyntio ar yr amser a gymerwyd i wneud y gwaith yn hytrach na chanfyddiadau'r archwiliad a nodwyd gennym.
- 20 O ran yr effaith ar reoli cyllideb gyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru, gall bylchau rhwng cost staff ac incwm ffioedd mewn ychydig o gyrff a archwilir yn unig beryglu sefyllfa ariannol gyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru a'r gofyniad caeth i ni weithio'n unol â'r cyllidebau cymeradwy a bennir gan y Cynulliad. Yn naturiol, mae amharodrwydd i gymryd risgiau wedi datblygu yn erbyn y cefndir hwnnw – yn syml, ni allwn fod mewn sefyllfa lle rydym yn mynd yn groes i'n Hamcangyfrif cymeradwy.
- 21 Ni fyddai unrhyw fodel busnes synhwyrol yn gweithio mewn ffordd mor gymhleth. Pan edrychwn ar ein cymheiriaid yn yr Alban, mae eu darpariaethau deddfwriaethol i 'adennill costau am waith ffi gan ystyried un flwyddyn ag un arall' yn eu galluogi i ystyried yr archwiliad cyfan a gwneud addasiadau fel y bo'n briodol o un flwyddyn i'r llall yn hytrach nag yn yr un flwyddyn ariannol.

Ateb a ffefrir: anelu at sicrhau nad yw ffioedd a godir ar berson yn fwy na chost lawn y gwaith a wnaed, gan ystyried un flwyddyn â'r un nesaf.

- 22 Ni chredwn fod yna fwrriad i Ddeddf 2013 achosi'r fath gymhlethdod a welir bellach na pheryglu sefyllfa ariannol gyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru. Ac ni chredwn ychwaith fod bwriad i'r cyfyngiad 'ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn' fod yn wrthanogaeth i gynnal archwiliadau'n fwy effeithlon. Mae'r wrthanogaeth hon yn codi am fod y cyfyngiad 'ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn' wedi'i gynnwys yn adran 23 o'r Ddeddf (darpariaethau yn ymwneud â ffioedd, ac mewn mannau eraill mewn deddfwriaeth arall) yn hytrach nag yn adran 24 (darpariaethau ar gyfer cynllun ar gyfer codi ffioedd). Mae gosod y cyfyngiad yn adran 23 yn arwain at rwymedigaeth gaeth mewn perthynas â thaliadau unigol am agweddau penodol ar ein gwaith, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i raddfeydd ffioedd a symiau ffioedd gael eu pennu ar lefel briodol yn y Cynllun Ffioedd am yr holl waith archwilio a gynhelir gennym.
- 23 Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, awgrymwn y dylid diwygio'r Ddeddf fel y bydd y cyfyngiad 'ni chaiff y ffi fod yn fwy na'r gost lawn' yn gymwys i bennu graddfeydd ffioedd a symiau ffioedd yn adran 24 Cynllun ar gyfer codi ffioedd, yn hytrach na'r ffioedd a godir mewn gwirionedd o dan adran 23 (a darpariaethau perthnasol mewn deddfwriaeth arall). Awgrymwn hefyd y dylid dileu'r cyfeiriad at gost 'swyddogaeth'³ a chynnwys darpariaeth ar gyfer 'ystyried un flwyddyn â'r un nesaf'. Byddai gwneud y newidiadau hyn yn cadw'r ddisgyblaeth o bennu graddfeydd ffioedd a symiau ffioedd gyda'r nod o adennill dim mwy na chost lawn y gwaith a wnaed, ond mewn ffordd lai rhagnodol ac anhyblyg nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Dylai darpariaeth debyg yn adran 24 o'r Ddeddf gynnig digon o hyblygrwydd i wella costeffeithiolrwydd ein trefniadau rheoli a phrosesu:

'Wrth bennu cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd, symiau i'w codi a'r ffordd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrifo ffioedd a gynhwysir mewn cynllun o dan yr adran hon, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru anelu at sicrhau nad yw ffioedd a godir ar berson yn fwy na chost lawn y gwaith a wnaed, gan ystyried un flwyddyn â'r un nesaf.

3 Drwy hepgor is-adran 23(5)(b) o Ddeddf 2013, ynghyd ag is-adran 20(5A) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac is-adran 27(4A) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Arddangosyn 5: manteision ac anfanteision yr ateb a ffefrir, anelu at sicrhau nad yw ffioedd a godir ar berson yn fwy na chost lawn y gwaith a wnaed, gan ystyried un flwyddyn â'r un nesaf.

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none"> • mae'n rhoi mwy o sicrwydd i gyrff a archwilir ynghylch y ffioedd y byddwn yn eu codi mewn unrhyw flwyddyn benodol – mae'n lleihau'r risg o filiau ychwanegol annisgwyl gan y byddai ffioedd yn cael eu haddasu o flwyddyn i flwyddyn yn hytrach nag yn ystod blwyddyn; • mae'n cadw sicrwydd mai dim ond am y gwaith a wnaed ar eu cyfer y mae cyrff a archwilir yn talu; • mae'n annog effeithlonrwydd o ran cynnal gwaith archwilio ar lawr gwlad, a allai arwain at leihau cost gwaith archwilio; • mae'n galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i reoli ei sefyllfa ariannol gyffredinol yn fwy effeithlon; • mae'n lleihau'r risg o her gyfreithiol i ddehongliadau o 'cost lawn swyddogaeth'; ac • mae'n gymaradwy ag Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon. 	<ul style="list-style-type: none"> • mae angen newid deddfwriaethol.

Case for change: cease the circulation of fee money amongst central government and NHS bodies and bolster audit independence

24 Mae codi ffioedd ar gyrff llywodraeth ganolog a'r GIG yn golygu y caiff cyllid gwerth tua £4.9 miliwn bob blwyddyn ei gylchredeg o fewn yr un sector. Mae llywodraeth ganolog a chyrff y GIG a gwmpesir gan y diffiniad hwn fel a ganlyn:

- Llywodraeth Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn)
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

- 25 Mae cyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad mewn perthynas â'r gwaith archwilio a wneir yn y cyrff hyn. Hynny yw, mae'r gwaith archwilio yn cael ei wneud i'r Cynulliad yn bennaf yn hytrach na'r corff a archwilir. Mae'r cyrff hyn yn talu am y ffioedd archwilio o'u cyllid a sicrheir drwy Gynnig Cyllidebol y Cynulliad.
- 26 O edrych ar ein cymheiriaid yng nghyrrff archwilio eraill y DU, gwelwn fod modd osgoi cyllido arian parod cylchol o'r fath i adrannau'r llywodraeth - ni chodir ffi arian parod (ond caiff tâl tybiannol ei gynnwys yng nghyfrifon y cyrff hynny) a darperir cyllid ar gyfer y gwaith hwnnw i'r swyddfa archwilio dan sylw yn uniongyrchol o'r Gronfa Gyfunol berthnasol.
- 27 Byddai dull gweithredu o'r fath yng Nghymru yn ychwanegu at annibyniaeth archwilwyr, gan na fyddai archwilwyr yn wynebu pwysau amhriodol i gyfyngu ar eu gwaith er mwyn lleihau ffioedd yn unig. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gwaith digonol yn cael ei wneud i ategu'r farn archwilio a sicrhau craffu digonol. Byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn dal i fod yn ddarostyngedig i waith monitro a chyingor Swyddfa Archwilio Cymru a'r gofyniad cyfreithiol i arfer swyddogaethau'n gosteffeithiol. At hynny, byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn dal i fod yn ddarostyngedig i broses graffu'r Cynulliad drwy'r Pwyllgor Cyllid.

Ateb a ffeirir: gwaith archwilio llywodraeth ganolog a'r GIG yn cael ei ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru (ar ôl cymeradwyo Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru) yn hytrach na ffioedd

- 28 Wrth ystyried p'un a ddylid symud i'r dull gweithredu hwn i Gymru, gwelwn fod lle i ymestyn hyn i'r GIG, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrrff y Comisiynwyr. Yn achos yr holl gyrff hyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ymgymryd â'u gwaith i'r Cynulliad yn hytrach nag i'r corff a archwilir. Felly gellir dadlau ei bod hefyd yn briodol bod cost yr archwiliadau'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan y Cynulliad drwy broses craffu a chymeradwyo cyllideb Swyddfa Archwilio Cymru yn hytrach na chan y corff a archwilir. Mae'r dull gweithredu hwn yn hyrwyddo annibyniaeth archwilio ar y corff a archwilir.

- 29 Byddai cyfanswm cost amcangyfrifedig y gwaith archwilio ymhlith y cyrff hyn (tua £4.9 miliwn) yn cael ei gynnwys yn Amcangyfrif blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru, i'w ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru. Byddai'n cael ei fantoli drwy addasiad untro i gyllideb Llywodraeth Cymru a chyrrff perthnasol eraill.
- 30 Byddem yn rhoi cost ffi dybiannol i gyrff perthnasol a archwilir, i'w chynnwys yn eu Cyllideb Adnoddau a'u Cyfrifon Blynyddol, yn unol â gofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Y newid allweddol yw na fyddem yn mynd ati i baratoi ac anfon anfonebau ar gyfer y gwaith hwnnw mwyach na throsglwyddo arian rhwng cyfrifon banc am y symiau a anfonebwyd.

Arddangosyn 6: manteision ac anfanteision yr ateb a ffefrir, gwaith archwilio llywodraeth ganolog a'r GIG i gael ei ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na thrwy anfonebau am ffi.

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none"> • mae'n golygu bod trefniadau Cymru yn debycach i'r trefniadau yn Audit Scotland, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon; • mae'n rhoi terfyn ar gylchredeg tua £4.9 miliwn o arian parod ymhlith llywodraeth ganolog/sector y GIG ac mae'n darparu ar gyfer cyllido drwy Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru yn lle hynny; • mae'n cysylltu cyllid y Cynulliad yn fwy uniongyrchol â'r gwaith archwilio sy'n destun adroddiadau i'r Cynulliad mewn perthynas â'r cyrff hyn a archwilir; • mae'n ychwanegu at annibyniaeth archwilwyr; • mae'n gwella effeithlonrwydd yn Swyddfa Archwilio Cymru a'r cyrrff perthnasol a archwilir drwy gael gwared ar ychydig o waith prosesu trafodion; a • gellir ei gyflwyno heb newid deddfwriaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> • mae mwy o gymhlethdod i Lywodraeth Cymru o bosibl o ran cysoni cofnodion ar gyfer cyllidebau adnoddau a Chyfrifon Llywodraeth Gyfan ymhlith cyrrff perthnasol.

Yr achos dros newid: rhoi disgrisiwn llawn i Swyddfa Archwilio Cymru benderfynu ar daliadau am waith cytundeb ac felly ei galluogi i ddefnyddio unrhyw symiau dros ben fel rhan o'i strategaeth ariannol.

- 31 Mae ein trefn ffioedd yn golygu na allwn godi mwy na chost lawn y gwaith a wneir gennym - boed hynny o dan statud neu drwy gytundeb. Mae hyn yn anffodus, oherwydd, weithiau, efallai y bydd cyfleoedd i ni ymgymryd â gwaith drwy gytundeb lle y credwn, pe caniateid i ni godi am y gwaith hwnnw ar sail gystadleuol, y gallem sicrhau sefyllfa ariannol gyffredinol well ac un a allai leihau ein gofyniad am gyllid cyhoeddus mewn gwirionedd (hynny yw, y cyllid a gawn o Gronfa Gyfunol Cymru neu drwy ffioedd archwilio a godir ar gyrrff cyhoeddus) drwy leihau ein costau gweithredu net.
- 32 Byddai newid o'r fath yn ein galluogi i gadw cyllid pan fo gwarged, yn hytrach na'r sefyllfa bresennol lle, hyd yn oed gyda thendr cystadleuol ar waith, mae'n rhaid i ni ad-dalu'r gwahaniaeth os yw ein costau gwirioneddol ar ddiwedd prosiect yn llai na ffi'r dyfynbris/tendr.
- 33 Rydym yn gweld potensial i arfer y disgrisiwn ychwanegol hwn fel rhan o'n strategaeth ariannol yn yr hirdymor.

Ateb a ffefrir: newid deddfwriaethol i alluogi Swyddfa Archwilio Cymru i benderfynu'n llwyr ar delerau talu ar gyfer gwaith cytundeb

- 34 Credwn y byddai mabwysiadu model lle y gall Swyddfa Archwilio Cymru benderfynu'n llwyr ar delerau talu ar gyfer gwaith cytundeb, yn hytrach na'u bod wedi'u gorfodi mewn deddfwriaeth, yn sicrhau mwy o ddarbodusrwydd yng nghost gwaith archwilio cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi wynebu'r sefyllfa lle bu'n rhaid i ni ad-dalu ffioedd yn rhannol am fod cost derfynol y gwaith yn llai na'r ffi y cytunwyd arni drwy broses tendr cystadleuol; mae hyn yn ymddangos yn ddisynnwyr.

Arddangosyn 7: manteision ac anfanteision yr ateb a ffefrir, newid deddfwriaethol i alluogi Swyddfa Archwilio Cymru i benderfynu'n llwyr ar delerau talu ar gyfer gwaith cytundeb

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none">• Mae'n adlewyrchu modelau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon;• mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd i Swyddfa Archwilio Cymru wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau; ac• mae potensial i leihau ein cost gweithredu net, gan arwain at gost gyffredinol is gwaith archwilio cyhoeddus yn cael ei hadennill drwy gyfraddau ffioedd.	<ul style="list-style-type: none">• mae angen newid deddfwriaethol.

Opsiynau eraill a gafodd eu hystyried ac yna'u gwrthod

- 35 Wrth lunio'r atebion a ffefrir gennym a nodir uchod, cafodd yr opsiynau canlynol eu hystyried ac yna'u gwrthod gennym hefyd. Ceir rhagor o esboniad yn **Atodiad 3**:
- gwneud dim a pharhau â'r cymhlethdodau fel y maent; ac
 - yn hytrach na rhywfaint o gyllid o ffioedd, cyllido Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfan gwbl o Gronfa Gyfunol Cymru
- 36 Byddai gwneud dim yn ein gadael yn mynd i'r afael â'r cymhlethdodau presennol, gydag ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r ffioedd gwirioneddol a godir ar gorff a archwilir a'r cymhellant croes o hyd i beidio â gwella effeithlonrwydd mewn gwaith archwilio ar lawr gwlad.
- 37 Yn ein barn ni, ni fyddai cyllido Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfan gwbl o Gronfa Gyfunol Cymru yn briodol, gan y byddai'n golygu mai Cronfa Gyfunol Cymru fyddai'n talu am gost gwaith cytundeb a wneir y tu allan i Gymru. Byddai hynny'n groes i drefniadau cyllido cyrff archwilio eraill y DU hefyd a byddai'n gofyn am newid deddfwriaethol mwy helaeth.

Cwestiynau trafod

Byddem yn croesawu'ch ymatebion yn y meysydd canlynol, fel y bônt yn berthnasol i chi:

- cwestiwn 1: gyda'r sicrwydd na fyddai'r ffi a godir ar gyrff a archwilir yn fwy na'r hyn y mae'r archwiliad wedi'i gostio gan ystyried un flwyddyn â'r un nesaf, a fydddech o blaid symleiddio'r drefn ffioedd archwilio yng Nghymru er mwyn cefnogi effeithlonrwydd archwilio?
- cwestiwn 2: i gyrff llywodraeth ganolog a'r GIG yng Nghymru, a hoffech symud i sefyllfa lle y caiff ffioedd eu pennu'n dybiannol i'r corff a archwilir ond na chânt eu bilio mewn gwirionedd? Yn hytrach, byddai'r ffi yn cael ei hariannu drwy Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru.
- cwestiwn 3: a ydych o'r farn y dylai fod modd i Swyddfa Archwilio Cymru benderfynu pa symiau i'w codi am waith archwilio anstatudol, lle mae eraill yn ein comisiynu i wneud gwaith drwy gytundeb?

Byddem yn croesawu'ch ymatebion erbyn 28 Gorffennaf 2017.

Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn rhannu'r ymatebion i'r ymgynghoriad â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad fel rhan o drafodaethau sy'n mynd rhagddynt ynghylch symleiddio'r drefn ffioedd.

Diolch am gymryd yr amser i ymateb. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan gyhoeddwn grynodeb o'r ymatebion.

Atodiadau

Atodiad 1: Darnau o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r drefn ffioedd ymhlith cyrff archwilio'r DU

Swyddfa Archwilio Cymru: Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

20 Fees in respect of functions exercised by the Auditor General for Wales

- A1 The Wales Audit Office must, in accordance with a scheme for charging fees prepared under section 24 of the Public Audit (Wales) Act 2013, charge a fee in respect of functions exercised by the Auditor General for Wales -
- a in auditing the accounts of local government bodies in Wales under this Chapter, and
 - b in undertaking studies at the request of a local government body under section 44.
- 1 The Wales Audit Office must prescribe a scale or scales of fees payable for one or more financial years in respect of the audit of accounts of local government bodies in Wales under this Chapter.
- 2 Before prescribing a scale of fees under subsection (1) the Wales Audit Office must consult -
- a any associations of local government bodies in Wales which appear to the Wales Audit Office to be concerned, and
 - b such other persons as the Wales Audit Office thinks fit.
- 3 [wedi'i ddirymu]
- 4 A local government body in Wales must, subject to subsection (5), pay to the Wales Audit Office the fee payable in respect of the audit in accordance with the appropriate scale.
- 5 If it appears to the Wales Audit Office that the work involved in a particular audit differed substantially from that envisaged by the appropriate scale, the Wales Audit Office may charge a fee which differs from that referred to in subsection (4).
- 5A But a fee charged under this section may not exceed the full cost of exercising the function to which it relates.
- 6 [wedi'i ddirymu]

Adrannau 23 a 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

23 Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd

- 1 Rhaid talu ffioedd a symiau eraill y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu cael, i SAC.
- 2 Caiff SAC godi ffi mewn perthynas ag archwilio cyfrifon neu ddatganiad o gyfrifon person gan yr Archwilydd Cyffredinol.
- 3 Caiff SAC godi ffi mewn perthynas â'r canlynol -
 - a ymchwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan baragraff 18(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ymchwiliadau penodol i ddarbodaeth etc person wrth ddefnyddio adnoddau);
 - b ymchwiliad a gynhelir ar gais person o dan adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (ymchwiliadau i ddefnydd o adnoddau) neu astudiaeth a wneir ar gais person o dan adran 145A o'r Ddeddf honno (astudiaethau ar gyfer gwella darbodaeth etc mewn gwasanaethau);
 - c ymchwiliad neu astudiaeth a gynhelir neu a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gais person o dan adran 46(4) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;
 - d unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu neu swyddogaethau sy'n cael eu harfer o dan adran 19.
- 4 Rhaid i SAC godi ffi mewn perthynas â'r canlynol -
 - a darparu gwasanaethau i gorff o dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ardystio hawliadau, ffurflenni etc ar gais corff);
 - b astudiaeth ar gais corff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998
- 5 O ran ffioedd a godir o dan yr adran hon -
 - a ni chaniateir iddynt gael eu codi ond yn unol â chynllun a baratoir gan SAC o dan adran 24;
 - b ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi'n ymwneud â hi;
 - c maent yn daladwy i SAC gan y person y mae'r swyddogaeth a arferir yn ymwneud ag ef.

24 Cynllun ar gyfer codi ffioedd

- 1 Rhaid i SAC baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan SAC.
- 2 Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol -
 - a rhestr o'r deddfiadau y caiff SAC godi ffi odanynt;
 - b pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i SAC ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;
 - c pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i SAC ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw;
 - d pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd SAC yn cyfrifo'r ffi a godir.
- 3 Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill -
 - a cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddsbarthau ar achosion gwahanol, a
 - b darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.
- 4 O ran y Cynllun -
 - a rhaid i SAC ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr,
 - b caiff SAC ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg, ac
 - c rhaid i SAC ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
- 5 Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan -
 - a adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data),
 - b adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd), i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan SAC, rhaid i SAC ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan SAC.

- 6 Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.
- 7 Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.
- 8 Rhaid i SAC gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Paragraff 8 o atodlen 3 i Ddeddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011

8 Audit fees etc

- 1 NAO may charge fees for audits carried out by the Comptroller and Auditor General.
- 2 Any fees must be charged in accordance with a scheme prepared by NAO.
- 3 The scheme (including any revision) must be approved by the Public Accounts

Commission.

- 4 The agreement of a Minister of the Crown is required for the charging of a fee if the accounts to be audited are the accounts of a body or other person who acts on behalf of the Crown.
- 5 Sub-paragraphs (1) to (4) do not apply in relation to an audit carried out as part of any NAO-approved services.
- 6 The Comptroller and Auditor General may charge fees and other amounts in relation to NAO-approved services, but only in accordance with the agreement or other arrangements under which the services are provided.
- 7 Fees and other amounts received by the Comptroller and Auditor General must be paid to NAO.
- 8 Fees and other amounts received by NAO under this paragraph must be paid into the Consolidated Fund.

Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon: Erthygl 7 o Orchymyn Archwilio (Gogledd Iwerddon) 1987

7 Audit fees

- 1 Subject to paragraph (2), the Comptroller and Auditor General may charge a fee for auditing the accounts of any person or body.
- 2 The Comptroller and Auditor General shall not without the consent of a Northern Ireland department charge a fee for auditing the accounts of a person or body whose functions are discharged on behalf of the Crown; and this Article shall not be construed as authorising the charging of a fee for the audit by agreement of the accounts of any other person or body unless the agreement so provides.
- 3 Any fee received by the Comptroller and Auditor General by virtue of this Article shall be paid by him into the Consolidated Fund.

Erthygl 8 o Orchymyn Llywodraeth Leol (Gogledd Iwerddon) 2005

8 Audit fees

There shall be paid to the Comptroller and Auditor General for Northern Ireland by every body whose accounts are audited by the local government auditor such fees as the local government auditor may determine.

Audit Scotland: Adran 11 o Ddeddf Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (Yr Alban) 2000

11 Audit Scotland: financial provisions

- 1 Audit Scotland may impose reasonable charges in respect of the exercise of its functions in connection with—
 - a the provision of services under arrangements made in pursuance of section 10(5),
 - b the audit under sections 21 and 22 of an account, other than one prepared in pursuance of section 19(1) to (3) or 20(1),
 - c the carrying out under section 23 of an examination, other than one in respect of an office-holder in the Scottish Administration or a body or other office-holder to whom sums are paid out of the Fund,
 - ca carrying out a data matching exercise under section 26A,
 - d the audit of an account in pursuance of Part VII of the Local Government (Scotland) Act 1973 (c.65),

- e the undertaking or promotion of any study under section 97A or 105A of that Act,
 - f the giving of directions under section 1 of the Local Government Act 1992 (c.19).
- 2 Charges under subsection (1) may be determined by reference to particular cases or classes of case.
 - 3 In determining the amounts of those charges Audit Scotland must seek to ensure that the total sum received in respect of the charges is, taking one year with another, broadly equivalent to its expenditure in connection with the matters mentioned in subsection (1)(a) to (f).
 - 4 Charges under subsection (1)(b) to (f) are payable by the body or office-holder whose account is audited or, as the case may be, in respect of whom the examination is carried out, the study undertaken or promoted or the direction given.
 - 5 Where a charge under subsection (1)(c), (e) or (f) relates to an examination, study or direction in respect of more than one body or office-holder, each body or office-holder is to pay such proportion of the charge as is determined by Audit Scotland.
- 5A Charges under subsection (1)(ca) may be imposed on (either or both) -
- a persons who disclose data for a data matching exercise,
 - b persons who receive the results of such an exercise.
- 6 Sums received by Audit Scotland in respect of charges under subsection (1) are to be retained by it and applied to meet the expenditure mentioned in subsection (3).
 - 7 Any other sums received by Audit Scotland are to be paid into the Fund, subject to any provision made by any enactment for such sums to be applied for any purpose instead of being paid into the Fund.
 - 8 Any expenditure of Audit Scotland, so far as not met out of sums received and applied in accordance with subsection (6), is payable out of the Fund.
 - 9 Audit Scotland must, for each financial year, prepare proposals for its use of resources and expenditure and send the proposals to the Scottish Commission for Public Audit (constituted under section 12), which is to examine the proposals and report to the Parliament on them.

Atodiad 2: Rhestr o ddeddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt

Arddangosyn 8: rhestr o ddeddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt

Natur y gwaith	Deddfiadau
Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol:	
<ul style="list-style-type: none"> archwilio cyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (heblaw am gyfrifon llywodraeth leol). 	<ul style="list-style-type: none"> adran 23(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
<ul style="list-style-type: none"> astudiaethau gwerth am arian a wneir drwy gytundeb. 	<ul style="list-style-type: none"> adran 23(3)(a)-(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
<ul style="list-style-type: none"> archwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 mewn perthynas â Datganiad Treth Awdurdod Refeniw Cymru. 	<ul style="list-style-type: none"> adran 23(3)(ba) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Heb ei chychwyn. Dyddiad i'w bennu.)
<ul style="list-style-type: none"> archwiliad o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2) (archwiliadau o gyrrff cyhoeddus at ddibenion asesu'r graddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy). 	<ul style="list-style-type: none"> adran 23(3)(ca) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
<ul style="list-style-type: none"> unrhyw rai o swyddogaethau awdurdod perthnasol a gyflawnir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy gytundeb, ac unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. 	<ul style="list-style-type: none"> adran 23(3)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
<ul style="list-style-type: none"> archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol. 	<ul style="list-style-type: none"> adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
<ul style="list-style-type: none"> ymarferion paru data. 	<ul style="list-style-type: none"> adran 64F(A1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn
<ul style="list-style-type: none"> cyngor a chymorth a roddir i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan yr Archwilydd Cyffredinol. 	<ul style="list-style-type: none"> adran 145D(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

Natur y gwaith	Deddfiadau
Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol:	
<ul style="list-style-type: none"> gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. 	<ul style="list-style-type: none"> adran 27 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn
<ul style="list-style-type: none"> gwasanaethau ardystio grantiau. 	<ul style="list-style-type: none"> adran 23(4)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
<ul style="list-style-type: none"> astudiaethau ar gais cyrff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. 	<ul style="list-style-type: none"> adran 23(4)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
<ul style="list-style-type: none"> archwilio cyfrifon corff llywodraeth leol a gwneud astudiaethau drwy gytundeb â chorff llywodraeth leol. 	<ul style="list-style-type: none"> adran 20(A1)(a)-(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol
<ul style="list-style-type: none"> astudiaethau gweinyddu budd-daliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal, neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal, astudiaeth o weinyddu budd-daliadau dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud trefniadau i dalu ffi i Swyddfa Archwilio Cymru am yr astudiaeth. Rhaid i'r ffi fod yn swm rhesymol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cytuno arno. 	<ul style="list-style-type: none"> adran 45 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
<ul style="list-style-type: none"> cynorthwyo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i arolygu awdurdodau lleol. Ni fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn darparu cymorth o'r fath oni fydd y Prif Arolygydd, cyn iddo wneud hynny, wedi cytuno i dalu ffi i Swyddfa Archwilio Cymru. 	<ul style="list-style-type: none"> adran 41A o Ddeddf Addysg 1997
<ul style="list-style-type: none"> rhaglenni astudio yn ymwneud â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a gynhelir drwy gytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol. Bydd yn un o amodau unrhyw raglen o'r fath bod yn rhaid i Weinidogion Cymru dalu swm i Swyddfa Archwilio Cymru am y costau yr eir iddynt. 	<ul style="list-style-type: none"> adran 145C(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

Atodiad 3: Opsiynau eraill a gafodd eu hystyried ac yna'u gwrthod

Arddangosyn 9: opsiwn – gwneud dim a pharhau â'r cymhlethdodau fel y maent

O dan yr opsiwn hwn ni fyddai unrhyw newidiadau i'r drefn ffioedd yng Nghymru.

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none">ni fyddai angen unrhyw newid deddfwriaethol.	<ul style="list-style-type: none">byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r cymhlethdodau a esbonnir yn y papur trafod hwn, gyda'r cymhellion croes i gyflawni gwaith archwilio i'r ffi y cytunwyd arni yn parhau, yn hytrach na sicrhau mwy o effeithlonrwydd ar lawr gwlad.

Arddangosyn 10: opsiwn – ariannu Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfan gwbl o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na rhywfaint o gyllid o ffioedd

Byddai'r opsiwn hwn yn darparu trefn gyllido gwbl wahanol yng Nghymru i weddill y DU.

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none"> • mae'n symleiddio'r drefn ffioedd gyfan ac ni chodir ffioedd am waith archwilio statudol ym mhob sector; • mae'n beth da o ran annibyniaeth archwilwyr a sicrhau atebolrwydd cyrff a archwilir - mae'n osgoi trafodaethau estynedig am ffioedd; ac • arbedion posibl mewn perthynas ag effeithlonrwydd prosesau rheoli a gweinyddu, gan leihau cost gyffredinol gwaith archwilio cyhoeddus 	<ul style="list-style-type: none"> • mae angen newid deddfwriaethol helaeth. • mae'n wahanol i drefniadau archwilio cyhoeddus yng ngweddill y DU; • ni fyddai'n briodol i Gronfa Gyfunol Cymru dalu am gost gwaith cytundeb a wneir y tu allan i Gymru; • mae'n gwanhau atebolrwydd cyrff a archwilir o ran paratoi cyfrifon o ansawdd da (h.y. ddim yn mynd i gost archwilio ychwanegol oherwydd ansawdd gwael); • nid yw llywodraeth leol wedi'i hariannu'n gyfan gwbl drwy Gronfa Gyfunol Cymru, ond byddai'n ariannu ei hollol ffioedd archwilio; • mae'n lleihau'r cyfle i addasu un ffynhonnell o gyllid i wrthbwysu newidiadau mewn un arall; • gallai penderfyniadau cyllido Pwyllgor Cyllid y Cynulliad ddylanwadu ar raddau gwaith archwilio, sy'n mynd yn groes i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol; ac • mae mwy o gymhlethdod i Lywodraeth Cymru o bosibl o ran cysoni cofnodion ar gyfer cyllidebau adnoddau a Chyfrifon Llywodraeth Gyfan ymhlith cyrff perthnasol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk